

Ewch ar y daith: chwedloniaeth de Sir Benfro

Wrth i chi fynd ar daith ffordd hynod brydferth o amgylch de Sir Benfro, byddwch yn dod wyneb yn wyneb â'n cynhanes, ein [chwedlau enwog](#), yn ogystal ag ambell i farchog a brenin!

Dyma ambell un o'r chwedlau i chi edrych amdanynt:

Dilynwch ôl troed [Sant Gofan](#) yn ei gapel. Yn ôl y chwedl, roedd Sant Gofan allan am dro yn y 6ed ganrif pan ddaeth môr-ladron ato a'i fygwth – cuddiodd a chaeodd creigiau amdano i'w warchod. Ar ôl i'r môr-ladron adael, symudodd y creigiau o'r ffordd er mwyn ei ryddhau. Wrth deimlo cywilydd am ei lwfrdra, penderfynodd Sant Gofan aros yn ei unfan a mynd ati i annog tröedigaethau ymysg y paganiaid. Daeth y meudwy benben â'r môr-ladron unwaith eto a dygodd y taclau hynny ei gloch arian, ond yn ffodus roedd yr angylion yn cefnogi Gofan, a llwyddasant i adennill y gloch gan wneud iddi seinio fil o weithiau'n uwch nag o'r blaen!

Hop, cam athipyn
o naid i ffwrdd o
Eglwys Sant
Gofan y mae **Naid
yr Heliwr**, hafn
arfordirol
ddramatig ag
ymylon serth, 120
troedfedd o
ddyfnder, wrth
ymyl [Llwybr
Arfordir Sir
Benfro](#). Yn ôl pob
sôn roedd heliwr



yn carlamu ar hyd yr ardal hon pan ddaeth i ymyl y dibyn yn sydyn, ond heb amser i rwystro ei farch, llamodd y dyn a'r ceffyl dros y bwlch a glanio'n ddiogel ar yr ochr draw. Pan edrychodd ef yn ôl i weld pa mor bell yr oedd wedi llamu, dywedir bod yr heliwr wedi marw yn y fan a'r lle gymaint oedd ei sioc. Heddiw, mae dringwyr clogwyni anturus i'w gweld yn aml yn [dringo'r](#) waliau hyn, sydd bron â bod yn unionsyth.

Yn 1782, roedd ffermwr o'r enw Harry Reynolds yn cerdded ar y clogwyni yn **Linney Stack**, nid nepell o'i gartref ym Mhen-y-holt (gerllaw Capel Sant

Gofan), pan welodd berson ifanc ymhell allan yn y môr mewn dyfroedd dyfnion. Wrth iddo nesáu, gwelodd Harry fod y person ifanc ar ei eistedd, wedi'i gynnal gan gynffon brown a oedd yn siglo nôl ac ymlaen – **morwas!** Pan gasglodd Harry ei ffrindiau ynghyd i fynd i edrych, roedd y creadur rhithiol wedi diflannu...



Ar 28 Ionawr 1457, ganwyd Harri Tudur – sef **Brenin Harri'r VII** yn ddiweddarach – [yng Nghastell Penfro](#). Bron i drideg mlynedd yn ddiweddarach, yn 1485, dychwelodd ef i Gymru, gyda byddin y tro hwn, gan orymdeithio ar draws y wlad i Loegr i gwrdd â lluoedd Richard III ym Mrwydr Bosworth. Daliodd fry, yn falch i gyd, faner gyda draig goch arni. Yn dilyn ei lwyddiant, cludwyd y faner i Eglwys Gadeiriol Sant Paul er mwyn iddi gael ei chysegru. Fersiwn o'r faner hon yw baner Cymru bellach.

Dyn arbennig arall a oedd yn gysylltiedig â Chastell Penfro oedd **William Marshall**, a hyfforddodd fel marchog ac a ddaeth yn Iarll Cyntaf Penfro. Ailadeiladodd Marshall lawer o'r castell a welwn heddiw gyda charreg, gan gynnwys y **Tŵr Mawr** – dringwch hwn a mwynhewch olygfeydd anhygoel.

Cyn adnewyddu Castell Penfro yn y 19eg ganrif, roedd cyflwr y gaer yn dirywio – y man cuddio perffaith ar gyfer **draig** ar ddisberod? Clywodd criw o fechgyn a gerddai wrth ymyl y clogwyn synau'n dod o'r 'Wogan', ceudwll eang sy'n gorwedd o dan y castell. Roedd ci gyda nhw a lamodd i mewn i'r ogof. Clywsant creadur trwm yn symud o gwmpas, gwelsant *glec* dannedd miniog gwyn brawychus, a chennau'n fflachio yn y goleuni...ymddangosodd y ci, wedi'i anafu, ceisiodd y bechgyn gael cymorth gan warchodwr y castell, gan ddatgan wrtho eu bod wedi gweld draig, a daeth grŵp o ddynion arfog i ladd y creadur. Yn y diwedd, dim ond crocodeil bach ydoedd - wedi dianc o bosib oddi ar long fasnachol.

Yn y gorffennol pell, roedd [Ynys Bŷr](#) yn arhosfa arwyddocaol ar gyfer trigolion lleol; yn cael ei hystyried fel trothwy rhwng y bywyd hwn a'r un nesaf, roedd cyrff y meirw yn cael eu cludo yno fel na fyddai eu heneidiau yn tarfu ar y byw.



Yr ynys hefyd oedd lleoliad chwedl ryfedd y mynach oedd yn gwisgo du ar Ynys Bŷr. Yn ystod y Diwygiad, ymddiriedwyd mewn mynach i warchod trysorau o Glastonbury a'u cadw'n ddiogel – gwnaeth ef hyn, gan eu cludo draw i Ynys Bŷr. Ar ôl clywed bod dynion Harri'r VIIIfed yn llercian gerllaw, dywedir bod y mynach wedi gosod muriau o'i amgylch ef a'r trysor cyn mogi. Edrychwch i weld y llewyrch ysbrydol y mae sawl un yn credu ei fod yn nodi safle'r trysor a gladdwyd.

Mae gan Sir Benfro gymaint o chwedlau i chi eu harchwilio. Beth am gymryd eich amser a threulio [48 awr ym Mhenfro](#) i ddarganfod rhagor o straeon gwyllt Sir Benfro a'i hanesion difyr?

